

Adnabod Duw

“Rwyf am ei adnabod ef, a grym ei atgyfodiad.” (adn. 10)

Beth am ddarllen Philipiaid 3:1–11 ac yna myfyrio

Ystyriwch ymhellach drydydd rheswm pam fod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd credu bod gan Dduw ddigon o ddiddordeb ynddyn nhw i gyfansoddi stori yn eu bywydau: dydyn nhw ddim yn ei adnabod yn ddigon da.

Roeddwn i'n chwilfrydig wrth ddarllen yn ddiweddar am y gwahanol reolau mae'n rhaid i berson eu dilyn pan gaiff o neu hi eu cyflwyno i'r Frenhines. Ceir canllawiau ynglŷn â gwisg. Awgrymir bod rhai yn cael gwersi ymddygiad. Disgwylir i rywun fod yno ymhell cyn pryd ac i fod yn barod i ddisgwyl. Gwerthfawrogir pan fo merched yn gwneud cyrtsi a dynion yn moesyngrymu. Gosodwch hyn ochr yn ochr ag ymddangos gerbron llys y nef a chael bod yng nghwmni Brenin y Brenhinoedd. Gall unrhyw un ddod – does dim ystyriaeth i safle cymdeithasol. Does dim rhaid wrth gyflwyniadau, does neb sy'n ceisio mynediad yn cael ei rwystro, a does dim angen i neb oedi dod oherwydd eu hymddygiad na'u gwisg. Yn awr, fel y bu erioed, “aberthau Duw yw ysbryd drylliedig; calon ddrylliedig a churiedig” ni fydd yn dirmegu'r rhain (Salm 51:17). Eto faint o bobl sy'n esgeulus o'r fraint hon ac yn ymddwyn fel petai'r drws dan glo iddyn nhw?

Dro ar ôl tro rwyf wedi cael fy synnu pan fu i Gristnogion gyfaddef imi eu bod yn adnabod eu teuluoedd yn well na'r Arglwydd. Mae yna dristwch mawr yn hyn. *Crist ddylai fod y person mae pob Cristion yn ei adnabod orau.* Sut ddown ni i'w adnabod o? Trwy dreulio amser gydag ef mewn gweddi ac astudiaeth o'i Air. Y rhai hynny nad ydyn nhw'n ei adnabod o'n dda sy'n cael trafferth gyda'r syniad ei fod ef yn cyfansoddi stori yn eu bywydau. Wrth gwrs, mae'n rhaid wrth ddisgyblaeth. Mae'n fy rhyfeddu bod pobl yn gallu neilltuo oriau lawer er mwyn meistrolï rhyw ddiddordeb neu'i gilydd, tra'n tybio y gallan nhw ddod i adnabod Duw yn ystod ychydig funudau cysglyd ar ddiwedd y dydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 11:25–30;

1 Cor. 1:26–31

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. O dan ba amod yr ydym yn dysgu oddi wrth Iesu?
2. Beth sy'n dod i'n rhan yn sgil doethineb Duw?

Gweddi O Dad, rwy'n dyheu am gael d'adnabod di'n well. Eto, mae yna bris i'w dalu yn nhermau disgyblaeth ac amser. Helpa fi i dalu'r pris, oherwydd mae gwybodaeth ohonot ti yn werth llawer iawn mwy na'r pris. Yn enw Iesu. Amen.